

Rheoli Magu Lloi

Colostrwm – faint sy'n ddigonol?

Mae cynhyrchu lloeau cyfnewid cynhyrchiol yn hanfodol ar gyfer menter unrhyw ffermwr llaeth at y dyfodol. Dyma ambell awgrym cost effeithiol i'ch cynorthwyo gyda rheoli magu lloeau.

Colostrwm yw'r cyfraniad cyntaf a'r pwysicaf i iechyd y llo. Os nad yw llo yn derbyn digon o gyfaint ac ansawdd yn ystod cyfnodau cyntaf ei fywyd, gallai hynny achosi; cyfraddau twf arafach, perygl cynyddol o ddatblygu afiechyd felly costau uwch o ran trin a llafur, ac mae'n gysylltiedig â chynhyrchu llai o laeth yn y llaethiad cyntaf a'r ail laethiad.

Mae ymchwil llaeth AHDB wedi creu datrysiad sydyn ar gyfer rheolaeth colostrwm gan flaenoriaethu'r tri phwynt canlynol:

- Cyfanswm – wrth fwydo am y tro cyntaf, dylai'r llo sugno 10% o bwysau ei gorff, ac yna mwy o golostrwm wrth fwydo am yr ail waith o fewn 12 awr o'i eni
- Ansawdd - mae colostrwm yn cynnwys gwrthgyrff a elwir yn imwnglobin (neu Ig). Mae llo newydd anedig angen colostrwm sy'n cynnwys o leiaf 50g/litr o IgG - gellir profi hynny gyda cholostromedcolor - ni ddylid defnyddio unrhyw beth dan 50g/litr
- Amser - dylid rhoi colostrwm un ai o'r deth neu trwy diwb o fewn dwy awr ar ôl geni. Mae hefyd yn bwysig i gofio bod yr Ig o bwrs/cadair y fam yn gwanhau ac yn lleihau dros amser, felly sicrhewch fod y fam yn cael ei godro cyn gynted â phosib ar ôl dod â llo

Mae cysondeb o ran amseroedd bwydo, cyfanswm a chrynodiad y llaeth powdwr yn hollbwysig. Mae ymchwil newydd wedi dangos nad yw dau litr ddwywaith y dydd bellach yn cael ei ystyried yn ddigonol ac y dylai'r rhan fwyaf o lloeau gael o leiaf chwe litr o laeth powdwr bob dydd. Dylai'r crynodiad fod yn 125g o laeth powdwr i bob litr o ddw'r, sy'n gyfwerth â 650g y dydd.

Ailedrychwch ac adolygwch eich systemau magu lloeau i sicrhau'r lles gorau posib ar gyfer y llo, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd llafur a lles. Wrth feincnodi a chynhyrchu costau magu lloeau, mae'n bwysig i gyfrifo'r oriau gwaith sy'n cael eu treulio gyda'r lloeau a sicrhau bod y system yn effeithlon o ran cost a llafur. Mae nifer o systemau ar gael ac mae'n bwysig i ganfod yr un sydd fwyaf addas i'ch busnes.

Gellir ariannu cyngor pellach trwy [Wasanaeth Cyngori Cyswllt Ffermio](#).

Rhywbeth i'w ystyried?






Gall bwydo 40 llo gyda bwced o'u geni i'w diddyfnu gymryd hyd at 77 awr o waith – 115 munud i bob llo ar gost o £13.68 o lafur i bob llo. Gall bwydo lloeau mewn grw^p gynnig lleihad o 80% yn y gost yma.



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

Gall magu lloeau fod yn dasg lafurus sy'n cymryd amser maith ar unrhyw fferm, Fodd bynnag, dangosodd treialon a gynhaliwyd gan Moorepark, y ganolfan ymchwil Ilaeth Gwyddelig, nad oedd gwahaniaeth o ran cynnydd pwysau rhwng lloeau dros bedair wythnos oed a oedd yn cael eu bwydo unwaith y dydd o'u cymharu â grŵp a oedd yn cael eu bwydo ddwywaith y dydd, ond roedd arbedion i'w gweld mewn costau llafur.

Ffeithiau colostrwm

 <p>STORIWCH AR 4°C</p>	 <p>Profwch bob casgliad o golostrwm gyda cholostromedr i asesu ei ansawdd a sicrhewch ei fod dros 50g/l IgG</p>	 <p>Sicrhewch fod pob llo yn derbyn 10% o bwysau ei gorff trwy deth neu diwb i sicrhau ei fod yn cael digon</p>
 <p>Nid yw 80% o'r lloeau sy'n cael eu gadael ar y fam yn llyncu digon o golostrwm</p>	<p>Gall gor-gynhesu neu ferwi colostrwm wrth gynhesu neu ddadmer leihau'r lefel Ig yn y colostrwm - sicrhewch ei fod yn cael ei gadw dan 50°C ↓</p>	 <p>Sicrhewch fod pob darn o offer yn cael eu glanhau a'u diheintio gan fod bacteria yn gallu effeithio'r gyfradd amsugno IgG</p>

Syniadau slic

- Cariwch thermomedr gyda chi yn y sied lloeau bob amser. Dylid profi unrhyw arwyddion o ddiffyg awydd bwyd gan y gall tymheredd uchel nodi'r arwyddion cyntaf o glefyd resbiradol. Gellir ei adnabod dau neu dri diwrnod cyn unrhyw arwyddion clinigol - mae atal yn allweddol!
- Prawf penlinio - gwnewch brawf penlinio dyddiol, gostyngwch eich pen-lin i'r gwellt dan y llo, os yw eich pen-lin yn damp wedi i chi godi, nid yw'r gwellt yn ddigon sych a bydd y lloeau yn mynd yn damp ac yn colli gwres, sy'n hanfodol ar gyfer cynnydd pwysau.
- Dylai siediau lloeau fod wedi'u hawyru'n dda, ond heb ddrafft ar lefel y llo.
- Diddyfnwch y lloeau'n raddol dros gyfnod o wythnos i leihau lefelau straen.
- Neilltuwch unrhyw loeau sy'n ysgothi cyn gynted â phosib. Sicrhewch eu bod yn cael electrolytes a pheidiwch â rhoi'r gorau i fwydo Ilaeth powdwr gan eu bod angen yr egni i wella.
- Sicrhewch fod pob aelod o staff yn dilyn yr un broses wrth baratoi a chymysgu Ilaeth powdwr i sicrhau cysondeb o ran cyfaint, ansawdd a thymheredd wrth fwydo.